100
CBHC
RCAHMW
1908-2008

COMISIWN BRENHINOL HENEBION CYMRU

ROYAL COMMISSION ON THE ANCIENT AND HISTORICAL MONUMENTS OF WALES

# CAN MLYNEDD O AROLYGU A CHOFNODI

# ONE HUNDRED YEARS OF SURVEY AND RECORD

Sefydlwyd Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru ar 10 Awst 1908. Bellach, mae'n Gorff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad, a hwn yw'r sefydliad cenedlaethol sy'n gyfrifol am arolygu a chofnodi safleoedd, adeiladweithiau, tirweddau ac olion morol, archaeolegol a hanesyddol yng Nghymru.

Ei rôl bwysicaf yw curaduro Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru, sef yr archif awdurdodol o amgylchedd hanesyddol Cymru. Yn y Cofnod Henebion Cenedlaethol ceir adroddiadau a darluniadau sy'n ffrwyth prosiectau'r Comisiwn Brenhinol ynghyd â deunyddiau a roddwyd iddo gan ymchwilwyr amatur a phroffesiynol, cyrff masnachol fel practisau pensaernïol, Cadw, Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru a sefydliadau academaidd. Ei gryfderau arbennig yw ei gasgliadau helaeth o awyrluniau a mapiau.


Mae'r arddangosfa hon yn darlunio rhai o raglenni cyfredol y Comisiwn Brenhinol o ran ymchwil ac estyn-allan.













The Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales was established on 10 August 1908. It is now an Assembly Government Sponsored Body and is the national organisation responsible for surveying and recording archaeological and historical sites, structures, landscapes and maritime remains in Wales.

Its most important role is the curatorship of the National Monuments Record of Wales, the authoritative archive of the historic environment of Wales. The National Monuments Record contains reports and illustrations from the Royal Commission's projects and materials donated by amateur and professional researchers, commercial bodies such as architectural practices, Cadw, the Welsh Archaeological Trusts and academic institutions. Particular strengths are its extensive collections of aerial photographs and maps.

This exhibition illustrates some of the Royal Commission's current research and outreach programmes.


Noddir gan
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by
Welsh Assembly Government

# COFNOD HENEBION CENEDLAETHOL CYMRU:
## COFNODION AROLYGON Y COMISIWN BRENHINOL

# NATIONAL MONUMENTS RECORD OF WALES:
## RECORDS OF ROYAL COMMISSION SURVEYS

Y Cofnod Henebion Cenedlaethol yw cartref nifer fawr o gofnodion ysgrifenedig, graffigol a ffotograffig sy'n ffrwyth gwaith y Comisiwn Brenhinol dros y can mlynedd diwethaf.

The National Monuments Record is the home of the large number of written, graphical and photographic records created by the Royal Commission in the last hundred years.



Adluniadau: Tŷ neuadd o ganol yr unfed ganrif ar bymtheg yn Upper Hem, Fforden, Powys. Hawlfraint y Goron: CBHC. NPRN 21504; GTJ 00033.

Reconstruction Drawings: A mid-sixteenth-century hall-house at Upper Hem, Forden, Powys. Crown Copyright: RCAHMW. NPRN 21504; GTJ 00033.



Ffotograffau: Crëwyd y murlun hwn o'r Gweithredoedd Trugarog tua diwedd yr Oesoedd Canol yn Eglwys y Santes Fair, Rhiwabon, Wrecsam. Hawlfraint y Goron: CBHC. NPRN 12550; DI2006_1930.

Photography: Late-medieval wall painting showing the Acts of Mercy at St Mary's church, Ruabon, Wrexham. Crown Copyright: RCAHMW. NPRN 12550; DI2006_1930.




Lluniadau Mesuredig: Hen Siop y Gornel, Stryd y Dwyrain, Rhaeadr Gwy, Powys; adeilad ac iddo ffrâm o bren o'r ail ganrif ar bymtheg. Hawlfraint y Goron: CBHC. NPRN 81121; CSRAD04.

Measured Drawings: The Old Corner Shop, East Street, Rhayader, Powys; seventeenth-century timber-framed building. Crown Copyright: RCAHMW. NPRN 81121; CSRAD04.



Ffotograffiaeth: Canol Eglwys y Santes Fair, Rhiwabon, Wrecsam. Hawlfraint y Goron: CBHC. NPRN 12550; DI2007_0285.

Photography: Nave of St Mary's church, Ruabon, Wrexham. Crown Copyright: RCAHMW. NPRN 12550; DI2007_0285.



Graffigwaith cyfrifiadurol: Traphont Ddŵr Pontcysyllte. Hawlfraint y Goron: CBHC. NPRN 34410.

Computer-generated Graphics: Pontcysyllte Aqueduct. Crown Copyright: RCAHMW. NPRN 34410.

# COFNOD HENEBION CENEDLAETHOL CYMRU:
## CASGLIADAU A RODDWYD A CHASGLIADAU ARBENNIG

# NATIONAL MONUMENTS RECORD OF WALES:
## DONATED AND SPECIAL COLLECTIONS

Mae'r Cofnod Henebion Cenedlaethol yn cynnwys amrywiaeth mawr o gofnodion ysgrifenedig, graffigol a ffotograffig sydd wedi'u rhoi iddo gan unigolion, y llywodraeth a chyrff addysgol a busnesau preifat. Ymhlith ei gasgliadau arbennig mae awyrluniau fertigol a lletraws a mapiau hanesyddol.

The National Monuments Record contains a great variety of written, graphical and photographic records donated to it by individuals, government and educational bodies and private businesses. Its special collections include vertical and oblique aerial photography and historic maps.



Cofnodion Ysgrifenedig a Graffigol:
Finwyth oes o arsylwi archaeolegol yng Nghymru: tudalen o lyfrau nodiadau R. E. Kay.
Hawlfraint y Goron: CBHC. CD2005_606_014.

Written and Graphical Records:
A lifetime of archaeological observations in Wales: a page from R. E. Kay's notebooks.
Crown Copyright: RCAHMW. CD2005_606_014.

Lluniadau Hanesyddol: Tu blaen Great Castle House, Trefynwy, a luniadwyd ym 1921. Hawlfraint y Goron: CBHC. NPRN 36568; DI2005_0012.

Historic Drawings: Front elevation of Great Castle House, Monmouth, drawn in 1921. Crown Copyright: RCAHMW. NPRN 36568; DI2005_0012.

Ffotograffau Hanesyddol: Print ar bapur halen o ffotograff a dynnwyd ym 1855 o Abaty Glyn-y-groes, Llandysilio, Sir Ddinbych. Hawlfraint y Goron: CBHC. NPRN 95205; DI2007_1156.

Historic Photography: A salt paper print of a photograph taken in 1855 of Valle Crucis Abbey, Llantysilio, Denbighshire.
Crown Copyright: RCAHMW. NPRN 95205; DI2007_1156.

Awyrluniau Fertigol: Doc Penfro, 2001. Hawlfraint y Goron: Cedwir pob hawl.
Trwydded rhif 100017916 yr Arolwg Ordnans.
OS 01/522/127. 08/08/2001. DI2007_610.

Vertical Photography: Pembroke Dock, 2001.
Crown Copyright: All rights reserved.
Ordnance Survey licence no. 100017916.
OS 01/522/127. 08/08/2001. DI2007_610.

Ffotograffau Hanesyddol: Cyn-felinydd yn sefyll wrth adfeilion yr olwyn ddŵr ym Melin Flawd Marfordd, ger yr Orsedd, Wrecsam. Hawlfraint y Goron: CBHC. NPRN 24879; DI2006_0542.

Historic Photography: A former miller standing by the derelict waterwheel at Marford Corn Mill, Rossett, Wrexham. Crown Copyright: RCAHMW. NPRN 24879; DI2006_0542.

100 CBHC RCAHMW 1908-2008

COMISIWN BRENHINOL HENEBION CYMRU


ROYAL COMMISSION ON THE ANCIENT AND HISTORICAL MONUMENTS OF WALES

# AROLYGU'R TIR
# GROUND SURVEY

Un o'r ffyrdd gorau o ddechrau deall safle archaeolegol yw gwneud arolwg topograffig manwl ohono. Bob blwyddyn, bydd y Comisiwn Brenhinol yn gwneud arolygon o safleoedd sydd dan fygythiad neu o bwys cenedlaethol.

One of the best ways to begin to understand an archaeological site is to make a detailed topographic survey of it. Annually the Royal Commission carries out surveys of sites under threat or of national importance.





Cynllun sy'n llwyth arolwg â chadwyn a theodolit ar gyfer *Inventory* Morgannwg o lawr y castell a godwyd yng Nghaerffili tua diwedd y drydedd ganrif ar ddeg. Hawlfraint y Goron: CBHC. NPRN 94497; DI2005_0008.

Ground plan of the late-thirteenth-century castle at Caerphilly, produced by chain and theodolite survey for the Glamorgan *Inventory*. Crown Copyright: RCAHMW. NPRN 94497; DI2005_0008.

Yma, defnyddir offer arolygu System Leoli Fyd-Eang ar fryngaer o'r Oes Haearn. Hawlfraint y Goron: CBHC.

Global Positioning System surveying equipment being used on an Iron Age hillfort. Crown Copyright: RCAHMW.

Mae awyrluniau'n ffordd rymus o ddogfennu tirweddau Cymru o'r cyfnod cynhanesyddol hyd heddiw. Bob blwyddyn, daw archaeolegydd awyr y Comisiwn Brenhinol o hyd i safleoedd sydd wedi hen ddiflannu, gan gynnig persbectifau newydd ar henebion hysbys ac ar adeiladau ein hardaloedd trefol a gwledig.

Aerial photography is a powerful way to document the landscapes of Wales from prehistory to the present. Every year the Royal Commission's aerial archaeologist discovers long-hidden sites and provides new perspectives on known monuments and the buildings of our towns and countryside.



*Ôl-cnydau cymhleth o domenni claddu o'r Oes Efydd y cafwyd hyd iddo'n annisgwyl ym Mhen-y-wal, Goginan, Ceredigion. Hawlfraint y Goron: CBHC. NPRN 404647; AP_2006_3785.*

Cropmarks of an unsuspected complex of Bronze Age burial mounds at Pen-y-wal, Goginan, Ceredigion. Crown Copyright: RCAHMW. NPRN 404647; AP_2006_3785.

Tŷ gwydr Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru adeg ei godi ym 1998. Hawlfraint y Goron: CBHC. NPRN 307111; DI2007_0182.

The glasshouse of the National Botanic Garden of Wales under construction in 1998. Crown Copyright: RCAHMW. NPRN 307111; DI2007_0182.



# RHAGLENNI AROLYGU
# SURVEY PROGRAMMES

Mae rhaglenni arolygu y Comisiwn Brenhinol yn ymdrin â themâu o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol ym myd archaeoleg a hanes pensaernïol a diwydiannol heddiw. Yn ogystal, mae gan y Comisiwn Brenhinol uned sy'n arolygu adeiladau pwysig y bygythir eu dymchwel neu eu newid yn sylweddol.

---

The Royal Commission's survey programmes deal with themes of national or regional interest in current archaeology and architectural and industrial history. The Royal Commission also maintains a unit to survey significant buildings threatened with demolition or substantial alteration.



Archaeoleg Ddiwydiannol: Traphont Ddŵr Pontcysyllte, Llangollen Wledig, Wrecsam, a agorwyd ym 1805. Hawlfraint y Goron: CBHC. NPRN 34410; DS2005_007_084.

Industrial Archaeology: Pontcysyllte Aqueduct, Llangollen Rural, Wrexham, opened in 1805. Crown Copyright: RCAHMW. NPRN 34410; DS2005_007_084.



Pensaernïaeth Frodorol: Cwmeilath, tŷ hir deulawr a godwyd wedi'r Oesoedd Canol, ynghyd â beudy, yn Llansadwrn, Sir Gaerfyrddin. Hawlfraint y Goron: CBHC. NPRN 17266; DI2006_0816.

Vernacular Architecture: Cwmeilath, a post-medieval, two-storey longhouse and attached cattle house in Llansadwrn, Carmarthenshire. Crown Copyright: RCAHMW. NPRN 17266; DI2006_0816.




Archaeoleg Ddiwydiannol: Gwneud iâ yn y Ffatri Iâ, Aberdaugleddau, Sir Benfro. Hawlfraint y Goron: CBHC. NPRN 33352; DI2005_0208.

Industrial Archaeology: Ice-making at the Ice Factory, Milford Haven, Pembrokeshire. Crown Copyright: RCAHMW. NPRN 33352; DI2005_0208.



Adeiladau dan Fygythiad: Adfeilion ffermdy ôl-ganoloesol Court Farm, Cefn Sidan, Sir Gaerfyrddin. Hawlfraint y Goron: CBHC. NPRN 17245; DI2006_1246.

Threatened Buildings: The post-medieval Court farmhouse, Cefn Sidan, Carmarthenshire, in ruins. Crown Copyright: RCAHMW. NPRN 17245; DI2006_1246.



Menter Archaeoleg yr Uwchdiroedd: rhes o feini o'r Oes Efydd, Saith Maen, Tawe-uchaf, Powys. Hawlfraint y Goron: CBHC. NPRN 84328; DI2006_1715.

The Uplands Archaeology Initiative: Bronze Age stone row, Saith Maen, Tawe-uchaf, Powys. Crown Copyright: RCAHMW. NPRN 84328; DI2006_1715.

# ESTYN-ALLAN
# OUTREACH

Coflein yw cronfa ddata ar-lein Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru, ac mae modd i bawb gyrchu ei holl gynnwys yn rhad ac am ddim. Mae'r Comisiwn Brenhinol wedi defnyddio Cynorthwyydd Digidol Personol i ddatblygu cymhwysiad mapio cyfrifiadurol a symudol sy'n fodd i ddefnyddwyr gyrchu amrywiaeth o gyfryngau digidol i gael gwybodaeth am y lleoliadau y maent yn ymweld â hwy.

Bydd staff y Comisiwn Brenhinol yn teithio ledled Cymru i roi cyflwyniadau a chyngor.
Gall y Llyfrgell a'r Gwasanaeth Ymholiadau ymdrin ag ymholiadau drwy'r post, dros y ffôn neu'n electronig, ac mae croeso i bawb ymweld, yn unigol neu mewn grwpiau, â'i swyddfa yn Aberystwyth.

---

Coflein is the free online database of the National Monuments Record of Wales, making its holdings accessible to all. The Royal Commission has developed a mobile computer mapping application using a Personal Digital Assistant (PDA) which gives visitors access to a variety of digital media about the locations they are visiting.

Royal Commission staff travel all over Wales to make presentations and give advice.
The Library and Enquiries Service can deal with enquiries by mail, telephone or electronically, and visitors are welcome at its office in Aberystwyth, individually or in groups.






Drwy ddefnyddio'r Cynorthwyydd, cewch fynd yn syth at wybodaeth am ein treftadaeth.

Using the PDA gives you instant access to heritage information.



Toby Driver, archaeolegydd awyr, yn rhoi cyflwyniad yn y Sioe Frenhinol Cymru.


Toby Driver, aerial archaeologist, gives a presentation at the Royal Welsh Show.




Dangos awyrluniau o'r casgliadau i ymwelwyr â'r Llyfrgell a'r Ystafell Chwilio yn Aberystwyth.

Visitors to the Library and Search Room at Aberystwyth are shown aerial photographs from the collections.


# CYHOEDDRADAU CYFREDOL
# CURRENT PUBLICATIONS









**Pembrokeshire**
**Historic Landscapes from the Air**
Clawr caled / Hardback, ISBN: 978-1-871184-334
Clawr meddal / Paperback, ISBN: 978-1-871184-34-1

**Houses & History in the March of Wales**
**Radnorshire 1400 - 1800**
Clawr caled / Hardback
ISBN: 1-871184-23-1













**Pontcysyllte Aqueduct & Canal**
**Nomination as a world heritage site**
Clawr meddal / Paperback
ISBN: 978-1-871184-31-0

**Copperopolis**
**Landscapes of the Early Industrial Period in Swansea**
Clawr meddal / Paperback
ISBN: 978-1-871184-32-7

**Bryngaer Pen Dinas Hill-Fort**
**A Prehistoric Fortress at Aberystwyth**
Clawr meddal / Paperback
ISBN: 1-871184-24-X




**Hanes Wrth Law**
**History in Your Hands**
Clawr meddal / Paperback
ISBN: 978-1-871184-30-3

**Guns across the Severn**
**The Victorian Fortifications Of Glamorgan**
Clawr meddal / Paperback
ISBN: 1-871184-25-8

**The Archaeology**
**of the Welsh Uplands**
Clawr meddal / Paperback
ISBN: 1-871184-26-6

# Trysorau Cudd

## Darganfod Treftadaeth Cymru

*Golygwyd gan Peter Wakelin a Ralph A. Griffiths*

Clawr Caled
Ffeithiol
Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2008
ISBN: 978-1-871184-36-5 (yr argraffiad Cymraeg)
ISBN: 978-1-871184-35-8 (yr argraffiad Saesneg)
Pris: £24.95

Yn *Trysorau Cudd* dangosir sut y mae treftadaeth Cymru wedi'i hailddarganfod a'i hail-ddehongli yn ystod canrif o ymchwil. Ceir ynddo gant o draethodau ac amryw byd o luniau, ynghyd â rhagymadrodd cryno i bob cyfnod, a'r cyfan yn darlunio safleoedd, adeiladau a henebion sy'n cyfleu hanes Cymru o gyfnod cynhanes hyd heddiw. Bydd y llyfr hardd hwn yn gydymaith gwybodus i bawb sy'n ymddiddori ym mywyd a threftadaeth Cymru, boed hwy'n byw yng Nghymru, yn ymweld â hi neu'n ei hedmygu o bell.

Yn fuan ar ôl cyhoeddi *Trysorau Cudd*, fe ddarlledir ar BBC2 Cymru, o fis Tachwedd 2008 ymlaen, gyfres deledu mewn pum rhan gan y BBC o dan y teitl *Hidden Histories*. Bydd hi'n dilyn arbenigwyr y Comisiwn Brenhinol wrth iddynt ddadlennu dehongliadau newydd o dreftadaeth Cymru.

- 328 o dudalennau, lliw llawn
- 100 o brif ddelweddau gwych
- Dros 300 o ddelweddau atodol
- Ysgrifau deongliadol a chyflwyniadau i gyfnodau gan rai sy'n awdurdodau yn eu maes
- Rhagair gan Huw Edwards
- Darllen pellach

---

# Hidden Histories

## Discovering the Heritage of Wales


*Edited by Peter Wakelin and Ralph A. Griffiths*

Hardback
Non-fiction
Publication date: November 2008
ISBN: 978-1-871184-36-5 (Welsh language edition)
ISBN: 978-1-871184-35-8 (English language edition)
Price: £24.95

*Hidden Histories* shows how the heritage of Wales has been rediscovered and understood during a century of investigation. One hundred picture essays, supported by concise introductions to each era, illustrate sites, buildings and monuments that reflect the story of Wales from prehistory to the present. This beautiful book will be an informative companion for anyone interested in the life and heritage of Wales, whether living in Wales, visiting it or admiring it from afar.

*Hidden Histories* is accompanied by a five-part BBC television series of the same title, following the experts of the Royal Commission as they reveal new interpretations of the heritage of Wales, to be broadcast on BBC2 Wales from November 2008.

- 328 pages, full colour
- 100 superb main images
- Over 300 supporting images
- Interpretive essays and period introductions by authorities in their fields
- Foreword by Huw Edwards
- Further reading




**Llyfr Clawr Caled â Llu o Luniau**
**Ffurf Lenyddol: ffeithiol**
**Hyd: 328 tudalen**
**Dydd.Cyhoeddi:** Tachwedd 2008
**ISBN:** 978-1-871184-36-5
**£24.95 Cludiant am ddim**

**Lavishly Illustrated Hardback**
**Genre: non-fiction**
**Extent: 328 pages**
**Pub Date:** Nov 2008
**ISBN:** 978-1-871184-35-8
**£24.95 Free post and packaging**

100
CBHC
RCAHMW
1908-2008

**Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru**
**Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales**
Plas Crug, Aberystwyth, Cymru/Wales, SY23 1NJ

Ffôn / Telephone: 01970 621200
Ffacs / Fax: 01970 627701
e-bost: chcc.cymru@cbhc.gov.uk
e-mail: nmrw.wales@rcahmw.gov.uk
Gwefan: www.cbhc.gov.uk
Website: www.rcahmw.gov.uk

Noddir gan
Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by
Welsh Assembly Government